Profion Darllen Cenedlaethol

# DARLLEN
## CC5

**Enw cyntaf** ______________________________

**Cyfenw** ______________________________

**Ysgol** YSGOL CYMERAU ______________________________

**Dosbarth** ______________________________

**Dyddiad geni** ◯◯ ◯◯ ◯◯◯◯

**Dyddiad y prawf** ◯◯ ⓪⑤ ②⓪①⑦

**Cyfansowm y sgôr** ◯ (uchafswm 35)

150320

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cwestiynau ymarfer

**Yn y llyfryn hwn, mae nifer o gwestiynau i chi eu hateb mewn ffyrdd gwahanol. Dyma rai cwestiynau ymarfer a fydd yn dangos i chi sut i ateb y gwahanol gwestiynau sydd yn y prawf. Bydd y cyfarwyddiadau'n dweud wrthoch chi beth i'w wneud. I ddechrau, darllenwch y darn darllen sydd yn y bocs isod.**

> Mehefin yr wythfed. Dyddiad ras hwyl flynyddol yr ysgol! Roedd pawb wedi ymgasglu yn y maes parcio erbyn hanner awr wedi naw – plant, rhieni ac athrawon. Am ddeg o'r gloch safai'r rhieni yn gwylio'r cystadleuwyr. Roedd dros gant ohonyn nhw y tu ôl i'r llinell gychwyn, yn awyddus i godi arian mawr at achos da. Gwisgai rhai o'r athrawon ddillad ac esgidiau rhedeg, er mwyn dangos eu ffitrwydd, mae'n debyg. Ond roedd un person yn sefyll allan yng nghanol y rhedwyr. Dyna Mr Smith, y gofalwr, wedi gwisgo fel draig goch anferth a *wellingtons* gwyrdd am ei draed! Pwy fyddai'n ennill, tybed?

**a** Yn ogystal â'r plant, pwy arall oedd yn y maes parcio?

Ticiwch **3.**

Awgrym: Gwiriwch sawl ateb sydd angen ei dicio.

| | | | |
|---|---|---|---|
| rhieni | ☐ | gofalwr yr ysgol | ☐ |
| athrawon | ☐ | yr heddlu | ☐ |
| nyrs yr ysgol | ☐ | gyrrwyr | ☐ |

YSGOL CYMERAU

---

**b** **Dewiswch** a **chopïwch 1** gair sy'n golygu 'bob blwyddyn'.

Awgrym: Dylech chi edrych eto ar y stori i ddod o hyd i'r ateb.

________________________

---

**c** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

**Tanlinellwch 1** gair sy'n golygu 'dod at ei gilydd'.

Awgrym: Gwiriwch sawl gair sydd angen ei danlinellu.

> Roedd pawb wedi ymgasglu yn y maes parcio erbyn hanner awr wedi naw – plant, rhieni ac athrawon. Am ddeg o'r gloch safai'r rhieni yn gwylio'r cystadleuwyr. Roedd dros gant ohonyn nhw y tu ôl i'r llinell gychwyn, yn awyddus i godi arian mawr at achos da.

Awgrym: Os ydych chi'n gwneud camgymeriad ac eisiau newid eich ateb, dylech chi ddileu'r ateb cyntaf yn llwyr cyn tynnu llinell newydd.

---

**ch** Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn, o 1 i 5.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| pobl yn cyrraedd y maes parcio | |
| disgrifio gwisg y cystadleuwyr | |
| gofyn cwestiwn i'r darllenydd | |
| rhedwyr yn sefyll y tu ôl i'r llinell gychwyn | |
| diwrnod y ras hwyl wedi dod | 1 |

**d** Tynnwch **4** llinell i ddangos pwy oedd yn gwneud beth.

| | |
|---|---|
| gofalwr | gwylio'r ras |
| athrawon | gwisgo fel draig goch |
| cystadleuwyr | gwisgo esgidiau rhedeg |
| rhieni | codi arian |

YSGOL CYMERAU

**dd** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Roedd llawer o bobl yn rhedeg yn y ras. | | |
| Dim ond plant oedd yn cael cystadlu. | | |
| Roedd pob un o'r athrawon yn gwisgo dillad rhedeg. | | |

**STOPIWCH**

**Arhoswch am ganiatâd cyn dechrau gweithio ar dudalen 4.**

**Yn y llyfryn hwn mae tri darn i chi eu darllen a bydd angen i chi ateb cwestiynau ar bob un. Darllenwch y darn cyntaf yn ofalus CYN dechrau ateb y cwestiynau ar y darn. Yna darllenwch yr ail ddarn yn ofalus CYN ateb y cwestiynau ac yn y blaen.**

**Dylech chi weithio drwy'r llyfryn, hyd at ddiwedd tudalen 15, gan stopio pan fydd rhywun yn dweud wrthoch chi am wneud hynny. Cewch gyfeirio at y testun pan fydd angen.**

**Mae gennych chi hyd at 60 munud i wneud y prawf.**

## Rhodri'n rhagori

Yn y ddrama isod, mae Rhodri Morris a'i dad wedi mynd i'r ysgol i gael sgwrs â Miss Davies am adroddiad ysgol Rhodri.

**Miss Davies:** Diolch i chi am ddod, Mr Morris. Ac i ti, Rhodri. [*Rhodri'n gwenu'n swil*]

**Tad Rhodri:** Diolch am y gwahoddiad, Miss Davies. Rydyn ni bob amser yn awyddus i drafod sut mae Rhodri'n gwneud yn yr ysgol. Nid da lle gellir gwell yw hi, rwy'n credu. [*Rhodri'n edrych yn anghysurus*]

**Miss Davies:** Mae hynny'n wir amdanon ni i gyd, siŵr o fod! … Wel, mi ddywedwn i fod Rhodri wedi cael blwyddyn dda iawn, on'd wyt ti, Rhodri? [*Rhodri'n edrych ar ei ddwylo*] Mae llawer o bethau rhagorol yn yr adroddiad. Mae presenoldeb a gwisg ysgol Rhodri'n wych …

**Tad Rhodri:** Ydyn, mae hynny'n ddigon gwir. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod Rhodri'n cyrraedd y bws bob bore a'i fod yn drwsiadus*. Anodd gwybod sut siâp fyddai arno fel arall! [*Rhodri'n edrych dros ei ysgwydd*]

**Miss Davies:** Wel, mae Rhodri'n gwneud ei orau glas bob amser.

**Tad Rhodri:** Ond mae'r adroddiad yn dweud fel hyn, 'Mae angen i Rhodri ganolbwyntio ar wella rhai sgiliau sylfaenol mewn nifer o bynciau'. Ydy e'n tynnu'i bwysau, tybed? Tipyn o freuddwydiwr yw Rhodri ni, mae arna' i ofn.

**Miss Davies:** [*gan wenu ar Rhodri, sy'n edrych i lawr eto*] Mae gan eich mab ddawn i ysgrifennu'n greadigol. Mae ei gerddi Cymraeg a Saesneg yn haeddu canmoliaeth fawr.

YSGOL CYMERAU

**Rhodri:** [*yn edrych yn falch*] Diolch, Miss.

**Tad Rhodri:** Ond mae angen iddo wneud yn well yn y pynciau eraill, on'd oes? Does neb yn gallu gwneud bywoliaeth wrth fod yn fardd!

**Miss Davies:** [*yn newid trywydd y sgwrs*] Mae Rhodri'n aelod poblogaidd iawn o'r dosbarth.

**Tad Rhodri:** Fe wyddon ni hynny – mae digon o'i ffrindiau swnllyd yn ein tŷ ni byth a beunydd!

**Miss Davies:** A dweud y gwir, Mr Morris, ro'n i wedi eich gwahodd chi yma oherwydd fy mod i eisiau gair â chi am rywbeth arall ynglŷn â Rhodri … yn breifat, os yw'n bosib.

[*Tad Rhodri'n amneidio ar Rhodri i godi … Rhodri'n cerdded i gornel yr ystafell ac yn edrych yn bryderus iawn*]

[*yn gostwng ei llais*] Mae Rhodri wedi ennill gwobr am y cogydd ifanc mwyaf addawol* ym Mlwyddyn 7. Ond, dim gair eto, cofiwch. Fe gaiff Rhodri wybod yn y gwasanaeth yfory.



**Tad Rhodri:** Wir? [*yn edrych wrth ei fodd*] Felly, efallai bydd e'n ennill ei fara menyn mewn gwesty crand ryw ddydd, te!

**Miss Davies:** [*dan chwerthin yn braf*] 'Ennill ei fara menyn'. Ie wir, doniol iawn, Mr Morris.

[*Rhodri'n edrych yn syn ar y ddau*]

*yn drwsiadus – smart/taclus

*addawol – talentog/dawnus

**1** Pam aeth Rhodri a'i dad i'r ysgol?

Ticiwch **1.**

- i ddweud hwyl fawr wrth Miss Davies ☐
- i glywed am waith ysgol Rhodri ☐
- oherwydd bod Rhodri'n fachgen drwg ☐
- oherwydd bod Miss Davies yn derbyn gwobr ☐

1
1m

**2** **Dewiswch** a **chopïwch 2** air o'r ddrama sy'n disgrifio sut roedd Rhodri'n teimlo ar y dechrau.

1. ______________________________

2. ______________________________

2
1m

**3** *Nid da lle gellir gwell . . .*

Beth roedd Mr Morris yn ei olygu wrth ddweud hyn?

YSGOL CYMERAU

Ticiwch **2.**

- bod Rhodri'n fachgen drwg iawn ☐
- bod Rhodri'n well na'i dad ☐
- dylai Miss Davies ganmol Rhodri mwy ☐
- nad oedd safon gwaith Rhodri'n ddigon uchel ☐
- nad oedd Miss Davies yn ddigon llym ☐
- dylai Rhodri wneud mwy o ymdrech ☐

3
1m

**4** Yn ôl Mr Morris, pwy sy'n gwneud yn siŵr bod Rhodri'n cyrraedd yr ysgol mewn pryd?

Ticiwch **1.**

- Rhodri ei hun ☐
- ffrindiau Rhodri ☐
- rhieni Rhodri ☐
- athrawon Rhodri ☐

4
1m

*trosodd*

CYFANSWM
4m

**5** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

a) **Tanlinellwch** yr ymadrodd sy'n golygu 'drwy'r amser'.

| | |
|---|---|
| **Miss Davies:** | [*yn newid trywydd y sgwrs*] Mae Rhodri'n aelod poblogaidd iawn o'r dosbarth. |
| **Tad Rhodri:** | Fe wyddon ni hynny – mae digon o'i ffrindiau swnllyd yn ein tŷ ni byth a beunydd! |
| **Miss Davies:** | A dweud y gwir, Mr Morris, ro'n i wedi eich gwahodd chi yma oherwydd fy mod i eisiau gair â chi am rywbeth arall ynglŷn â Rhodri . . . yn breifat, os yw'n bosib. |
| | [*Tad Rhodri'n amneidio ar Rhodri i godi . . . Rhodri'n cerdded i gornel yr ystafell ac yn edrych yn bryderus iawn*] |

5a 1m

b) O'r darn uchod, **dewiswch** a **chopïwch 1** gair sy'n golygu 'gwneud arwydd'.

______________________________

5b 1m

YSGOL CYMERAU

**6** *[yn gostwng ei llais]*

Beth yw pwrpas y geiriau hyn?

Ticiwch **2**.

- gwneud yn siŵr bod y gynulleidfa yn clywed ☐
- dangos bod Miss Davies eisiau cadw cyfrinach ☐
- dangos sut roedd Mr Morris yn siarad ☐
- dangos sut dylai'r person sy'n actio ddweud y geiriau ☐
- helpu Rhodri i ddeall y sefyllfa ☐
- dweud wrth y person sy'n actio bod angen gweiddi'r llinell ☐

6 1m

**7** Tynnwch **3** llinell i gysylltu pob gair â'r ystyr cywir.

| | |
|---|---|
| rhagorol | clod/geiriau da |
| dawn | talent |
| canmoliaeth | ardderchog |

7 1m

**8** Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn, o 1 i 5.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Rhodri'n ymateb ar lafar i sylw Miss Davies | ☐ |
| Miss Davies yn siarad yn dawel | ☐ |
| Rhodri'n codi o'i sedd ac yn symud | ☐ |
| Mr Morris yn gwneud sylw am ffrindiau Rhodri | ☐ |
| Miss Davies yn siarad am gerddi Rhodri | 1 |

8 1m

**9** Yn ôl Miss Davies, pa bethau roedd Rhodri'n dda am eu gwneud yn yr ysgol?

Ticiwch **3**.

| | | | |
|---|---|---|---|
| ieithoedd | ☐ | ysgrifennu barddoniaeth | ☐ |
| gwyddoniaeth | ☐ | mathemateg | ☐ |
| paratoi bwyd | ☐ | canu'r piano | ☐ |

9 1m

YSGOL GYMRAEG

**10** Ticiwch bob rhes i ddangos ai **Mr Morris** neu **Miss Davies** neu **Rhodri** oedd yn gwneud y canlynol yn y ddrama.

| | Mr Morris | Miss Davies | Rhodri |
|---|---|---|---|
| siarad yn negyddol | | | |
| cadw'n dawel | | | |
| canmol llawer o bethau | | | |
| dweud rhywbeth doniol | | | |
| chwerthin am ben jôc | | | |
| edrych yn syn | | | |

10 2m

*trosodd*



CYFANSWM 8m

## Tipyn o steil

Cafodd Arwel druan ei berswadio gan ei ffrindiau i ymweld â siop trin gwallt ffasiynol.

Nid person trin gwallt yn unig oedd Mr Donny Donadini. Roedd yn ddylunydd gwallt hefyd, a dibynnai merched y dre arno i gadw'u gwalltiau mewn cyflwr perffaith. Roedd y salon yn reit adnabyddus a theithiai cwsmeriaid o bell i weld Mr Donadini.

Eisteddai Arwel yn y gadair fawr, yn syllu ar ei wyneb yn y drych. Y tu ôl iddo gallai weld tri wyneb: wynebau Trish, Tania a Donny Donadini ei hun. Gwallt hynod o gwta oedd gan Donny a phatrymau cymhleth ynddo. Roedd yn ddau liw gwahanol: wedi'i wynnu ac yn sticio i fyny ryw fymryn yn y tu blaen, ac yn ddu yn y cefn a'r llinellau ynddo'n hynod o finiog a syth.

Crynodd Arwel. Teimlai fel petai yn syrjeri'r deintydd.

"Mae'n hyfryd," meddai Donny wrth fyseddu gwallt Arwel. "Mae'n wallt ysgafn, meddal. Fe alla i wneud llawer â hwn."

Ceisiodd Arwel wenu wrth i Donny ddechrau rhedeg dŵr poeth i'r sinc. Gallai weld Trish a Tania yn syllu'n feirniadol arno.

"Beth hoffet ti i fi ei wneud, Arwel?" gofynnodd Donny. "Wnest ti ddod â llun? Wyt ti eisiau edrych yn debyg i rywun arbennig? Beth am ychydig bach o liw – er mwyn dangos y person go iawn?"

"Ym," meddai Arwel.

Twriodd Trish yn ei bag. Tynnodd gopi blinedig o gylchgrawn ffasiwn allan ohono a chwilio am lun. "Dyma ni!" meddai. "Allech chi greu rhywbeth tebyg i hwn?"

Gwyliodd Arwel wrth i Donny, Trish a Tania edrych ar y llun, yna ar adlewyrchiad Arwel yn y drych, yna ar y llun eto.

"Waw!" meddai Tania. "Mae'n fentrus."

YSGOL CYMERAU

"Iawn," meddai Donny, gan droi sedd Arwel i'w wynebu. "Dewch i ni gael mynd amdani!"

Gallai Arwel glywed ei galon yn rasio.

"Ymlacia!" meddai Donny, gan roi tywel dros war Arwel a phlygu'i ben yn ôl yn ofalus nes ei fod yn gorwedd dros ymyl y sinc.

Neidiodd Arwel wrth i'r dŵr lenwi'i glustiau. Roedd ei gorff yn llawn tyndra*. Roedd e'n siŵr fod y lleill yn chwerthin, ond allai e ddim clywed gair gan fod ei glustiau o dan y dŵr.


Dechreuodd Donny olchi ei wallt. Caeodd Arwel ei lygaid yn dynn rhag i'r siampŵ eu llosgi. Nawr allai e ddim gweld dim, chwaith.

Erbyn un ar ddeg o'r gloch roedd y cyfan drosodd.

Trawodd Arwel ochr ei ben â'i law. Roedd ei glust yn dal yn llawn dŵr a siampŵ. Syllodd ar ei adlewyrchiad. Doedd yr wyneb oedd yn syllu 'nôl arno ddim yn edrych yn un cyfarwydd. "Mae'r lliw'n wych," meddai Trish.

"Wir?" holodd Arwel.

"Ti yw'r bachgen tair ar ddeg oed mwyaf cŵl yng Nghymru."



*tyndra – tensiwn

1 Pam aeth Arwel i'r siop trin gwallt?

Ticiwch **1.**

- er mwyn cadw cwmni i'w ffrindiau ☐
- gan fod ei ffrindiau wedi ei berswadio ☐
- er mwyn gwneud hwyl am ben Donny Donadini ☐
- er mwyn edmygu Donny Donadini ☐
- gan fod prisiau Donny Donadini yn isel ☐

1 1m

2 Sut roedd Arwel yn teimlo wrth eistedd yn y sedd trin gwallt?

Ticiwch **2.**

| | |
|---|---|
| yn hapus ☐ | yn hyderus ☐ |
| yn drist ☐ | yn anghyfforddus ☐ |
| yn nerfus ☐ | yn flinedig ☐ |

2 1m

3 **Dewiswch** a **chopïwch 3** gair mae Donny'n eu defnyddio i ddisgrifio gwallt **Arwel**.

YSGOL CYMERAU

1. ______________________

2. ______________________

3. ______________________

3 1m

4 Cyn penderfynu ar steil gwallt newydd i Arwel, gofynnodd Donny sawl cwestiwn iddo.

Pam doedd Arwel ddim wedi ymateb?

Ticiwch **1.**

- Roedd yn teimlo'n ansicr. ☐
- Roedd yn fachgen ystyfnig. ☐
- Roedd yn crynu gormod. ☐
- Roedd dŵr yn ei glustiau. ☐

4 1m

*trosodd*

CYFANSWM 4m

**5** Tynnwch **4** llinell i gysylltu'r geiriau â'u hystyr.

| | |
|---|---|
| adnabyddus | gwir |
| hynod o gwta | enwog |
| ryw fymryn | byr iawn |
| go iawn | tipyn bach |

5 1m

**6** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

a) **Tanlinellwch 1** gair sy'n dangos bod cylchgrawn Trish wedi cael ei ddarllen sawl gwaith.

> Twriodd Trish yn ei bag. Tynnodd gopi blinedig o gylchgrawn ffasiwn allan ohono a chwilio am lun. "Dyma ni!" meddai. "Allech chi greu rhywbeth tebyg i hwn?"
>
> Gwyliodd Arwel wrth i Donny, Trish a Tania edrych ar y llun, yna ar adlewyrchiad Arwel yn y drych, yna ar y llun eto.
>
> "Waw!" meddai Tania. "Mae'n fentrus."
>
> "Iawn," meddai Donny, gan droi sedd Arwel i'w wynebu. "Dewch i ni gael mynd amdani!"
>
> Gallai Arwel glywed ei galon yn rasio.

YSGOL CYMERAU

6a 1m

b) O'r darn uchod, **dewiswch** a **chopïwch** y frawddeg sy'n dangos bod Donny yn barod i weithio ar wallt Arwel.

________________________________________

6b 1m

**7** Sut gymeriad yw Trish?

Ticiwch **3**.

| | | | |
|---|---|---|---|
| yn hoffi dilyn eraill | ☐ | yn gwrando ar eraill | ☐ |
| yn hoffi arwain eraill | ☐ | yn llawn hyder | ☐ |
| yn llawn syniadau | ☐ | yn cadw ati ei hun | ☐ |

7 1m

**8** *Caeodd Arwel ei lygaid …*

Pam?

Ticiwch **1**.

- oherwydd ei fod wedi blino ☐
- oherwydd ei fod yn ofnus ☐
- i osgoi gweld ei adlewyrchiad yn y drych ☐
- i rwystro'r siampŵ rhag mynd yn ei lygaid ☐

8 1m

---

**9** Sut gwnaeth Donny baratoi at drin gwallt Arwel?

Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn, o 1 i 5.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| edrych ar lun mewn cylchgrawn | |
| rhedeg dŵr i'r sinc | |
| gwlychu ei wallt | |
| plygu ei ben yn ôl | |
| teimlo ei wallt | 1 |

YSGOL CYMERAU

9 1m

---

**10** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

**Tanlinellwch** y frawddeg sy'n dangos bod Arwel yn edrych yn wahanol ar ôl i Donny orffen ei waith.

> Erbyn un ar ddeg o'r gloch roedd y cyfan drosodd.
>
> Trawodd Arwel ochr ei ben â'i law. Roedd ei glust yn dal yn llawn dŵr a siampŵ. Syllodd ar ei adlewyrchiad. Doedd yr wyneb oedd yn syllu 'nôl arno ddim yn edrych yn un cyfarwydd. "Mae'r lliw'n wych," meddai Trish.

10 1m

*trosodd*

CYFANSWM 7m


# Wyau

## Torri record y byd

Cafodd yr omled mwyaf erioed ei goginio ym Mhortiwgal yn 2012. Roedd angen y cynhwysion canlynol:

- 145,000 o wyau
- 399kg o olew
- 99kg o fenyn.

Am dros chwe awr cydweithiodd 150 cogydd i greu'r campwaith. Defnyddiwyd padell anferth (â diamedr o dros ddeg metr) a bu'n rhaid i'r cogyddion droi'r cymysgedd drwy'r amser i'w gadw rhag llosgi. Pwysau'r omled gorffenedig oedd 6.466 tunnell!



### Pwy ydych chi?

Mae ymchwilwyr yn dweud bod cysylltiad rhwng pa fath o berson ydych chi a'ch hoff fath o wy!

**Wy wedi'i ferwi** – ddim yn gydwybodol, braidd yn ddiofal

**Wy wedi'i ffrio** – creadigol, llawn dychymyg

**Wy wedi'i botsio** – hapus, hoffi gwisgo dillad lliwgar a gwrando ar gerddoriaeth fywiog

**Omled** – taclus, trefnus a dibynadwy.

"Mae'n anhygoel meddwl bod eich hoff ffordd o fwyta wyau yn dweud cymaint am eich personoliaeth," meddai cadeirydd Cyngor y Diwydiant Wyau. "Ond yn y bôn, does dim ots sut rydych chi'n bwyta eich wyau – maen nhw dal yn llawn maeth, yn amlbwrpas ac yn cynnig gwerth am arian drwy'r dydd, bob dydd!"

Dyma ran o gerdd sy'n trafod barn plentyn am wyau:

## Wyau mewn omled?

**Wy wedi'i ferwi?** Dim diolch –
Dyna yn sicr yw 'marn,
'Dyw **wy wedi'i ffrio** ddim callach –
Yn slefran ar draws yr holl blât,
Ei dop o ddim wedi'i goginio
A'i waelod cyn ddued â grât*.
Mae **wy wedi'i botsio** yn ddyfrllyd*,
Yn suddo yn sogi drwy 'nhost…


Ond pan fydd 'na awgrym o **omled**,
Mi fyddaf yn wirion bost
Yn torri'r ham a'r tomatos,
Yn hwylio'r bwrdd* at y pryd,
Yn agor poteli o sosys
A disgwyl yn wên i gyd
Am blatiad o grimpyn melyn
A deud 'mod i awydd cael mwy…

Be? Oes 'na wyau mewn omled?
Ond dw i ddim yn licio wy… .

gan Myrddin ap Dafydd

*grât – lle tân
*yn ddyfrllyd – llawn dŵr
*hwylio'r bwrdd – gosod y bwrdd

### Beth sydd mewn wy heb ei goginio?



**1** Darllenwch y rhan *Torri record y byd.*

Dewiswch y gair/geiriau gorau i gwblhau'r frawddeg.

Ticiwch **1** bob tro.

**Er mwyn cadw'r omled rhag**

a) coginio ☐ sychu ☐ rhwygo ☐ llosgi ☐

**roedd yn rhaid i'r cogyddion**

b) ei dorri ☐ ei droi ☐ ei drwsio ☐ ei daflu ☐

**am**

c) awr gyfan. ☐ sawl awr. ☐ sawl diwrnod. ☐ ddiwrnod cyfan. ☐

1 — 1m

---

**2** Darllenwch y darn *Pwy ydych chi?*

**Dewiswch** a **chopïwch** yr ymadrodd sy'n dweud bod wyau'n dda i chi.

______________________________

2 — 1m

YSGOL CYMERAU

---

**3** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

a) **Tanlinellwch 1** gair sy'n dangos bod wyau'n gallu cael eu defnyddio mewn sawl ffordd.

> "Mae'n anhygoel meddwl bod eich hoff ffordd o fwyta wyau yn dweud cymaint am eich personoliaeth," meddai cadeirydd Cyngor y Diwydiant Wyau. "Ond yn y bôn, does dim ots sut rydych chi'n bwyta eich wyau – maen nhw dal yn llawn maeth, yn amlbwrpas ac yn cynnig gwerth am arian drwy'r dydd, bob dydd!"

3a — 1m

b) Pa fath o ysgrifennu sydd yn y paragraff uchod?

Ticiwch **1.**

adrodd stori ☐
mynegi barn ☐
cynnal sgwrs ☐
trefnu gwybodaeth ☐
cyflwyno data ☐

3b — 1m

---

*trosodd*

CYFANSWM — 4m

**4** Darllenwch y darn *Pwy ydych chi?*

Llenwch y tabl isod i ddangos pwy sy'n hoffi pa fath o wyau, yn ôl yr ymchwil.

| | Wedi'i ferwi | Wedi'i ffrio | Wedi'i botsio | Omled |
|---|---|---|---|---|
| pobl greadigol | | | | |
| pobl llawn dychymyg | | | | |
| pobl hapus | | | | |
| pobl sy'n gwisgo'n lliwgar | | | | |
| pobl drefnus | | | | |
| pobl ddiofal | | | | |

4 2m

**5** Dyma gopi o'r gerdd.

Labelwch bob saeth i ddangos beth yw pwrpas pob rhan o'r testun.

YSGOL CYMERAU

**A** – ansicrwydd

**B** – mynegi barn

**C** – brawddeg heb ei gorffen

**Ch** – cyffro/edrych ymlaen

Dyma ran o gerdd sy'n trafod barn plentyn am wyau:

**Wyau mewn omled?**

**Wy wedi'i ferwi?** Dim diolch –
Dyna yn sicr yw 'marn,
'Dyw **wy wedi'i ffrio** ddim callach –
Yn slefran ar draws yr holl blât,
Ei dop o ddim wedi'i goginio
A'i waelod cyn ddued â grât*.
Mae **wy wedi'i botsio** yn ddyfrllyd*,
Yn suddo yn sogi drwy 'nhost…

Ond pan fydd 'na awgrym o **omled**,
Mi fyddaf yn wirion bost
Yn torri'r ham a'r tomatos,
Yn hwylio'r bwrdd* at y pryd,
Yn agor poteli o sosys
A disgwyl yn wên i gyd
Am blatiad o grimpyn melyn
A deud 'mod i awydd cael mwy…

Be? Oes 'na wyau mewn omled?
Ond dw i ddim yn licio wy… .

gan Myrddin ap Dafydd

*grât – lle tân
*yn ddyfrllyd – llawn dŵr
*hwylio'r bwrdd – gosod y bwrdd

5 1m

**6** Darllenwch ail bennill y gerdd.

**Dewiswch** a **chopïwch** y llinell sy'n disgrifio golwg yr omled gorffenedig.

______________________________________________

6 1m

**7** Mae'r bardd yn disgrifio paratoi at fwyta omled.

Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn, o 1 i 5.

Mae rhif 5 wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| paratoi'r bwrdd | ☐ |
| paratoi cynnwys yr omled | ☐ |
| edrych ymlaen at fwyta'r omled | ☐ |
| rhoi'r saws yn barod | ☐ |
| bwyta'r omled i gyd | 5 |

7 — 1m

**8** Darllenwch y gerdd ar dudalen 12 yn ofalus.

Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Mae pennill cyntaf y gerdd yn ddisgrifiadol. | | |
| Mae wy wedi'i ffrio'n llawn dŵr. | | |
| Mae gwaelod wy wedi'i ffrio'n wyn iawn. | | |
| Mae'r plentyn yn hoffi omled â chig ynddo. | | |
| Mae'r plentyn yn synnu bod wyau mewn omled. | | |
| Mae llinell olaf y gerdd yn negyddol. | | |

8 — 2m

**9** Edrychwch ar dudalen 12.

Mae gwahanol ffurfiau ysgrifennu yno.

Tynnwch **3** llinell i gysylltu'r math o ysgrifennu â'i bwrpas yn y testun hwn.

| | |
|---|---|
| siart cylch | tynnu sylw |
| pwyntiau bwled | cyflwyno data |
| print trwm | cyflwyno rhestr |

9 — 1m

**Diwedd y prawf. Gwiriwch eich gwaith.**

CYFANSWM — 8m

YSGOL CYMERAU

**Diolchiadau**

'Tipyn o steil' addaswyd o *Sombis Rygbi, Y Gêm Ryngwladol Olaf* gan Dan Anthony, addasiad Ion Thomas (Gomer, 2015)

'Wyau' addaswyd o
www.guinnessworldrecords.com/news/2012/8/largest-omelette-world-record-set-by-portuguese-chefs-44276
a
www.worldpoultry.net/Layers/Eggs/2012/10/Research-finds-egg-preference-reflects-personality-1079771W
a
www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/167972/Nutrient_analysis_of_eggs_Summary_Report.pdf
Daw'r detholiad o'r gerdd 'Wyau mewn Omled?' o *Tafodau'n Symud* gan Myrddin ap Dafydd (Gwasg Carreg Gwalch, 2012)

Mae'r testunau hyn wedi eu cynnwys yn y prawf hwn at ddibenion yr arholiad yn unig yn unol ag Adran 32(3) y Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988. Nid oes cais wedi ei wneud na hawl wedi ei roi ar gyfer unrhyw hawlfraint arall.

© Hawlfraint y Goron 2017